

Case Study

Thistle Care



Gofal Thistle yn dewis **CallConfirmLive!** er mwyn gofalu fod eu gofal cartref o safon yn fwy trylwyr

Bu i Lynne Rees sefydlu Thistle Care yng Nghaerdydd yn 2016 gyda'r nod o ddatblygu gofal o safon o'r radd flaenaf. Wedi defnyddio CallConfirmLive! CM2000 eisoes mewn swyddi blaenorol gyda Darparwyr gofal eraill, roedd Lynne yn gwybod ei fod yn addas i'w busnes newydd. Mae Thistle Care yn defnyddio nodweddion amserlenni, Dewin Milltiroedd (Mileage Wizard) a nodwedd monitro amser real yn defnyddio Datrysiadau Gweithlu Symudol.



Thistle Care

“Rydw i wrth fy modd gyda pha mor drylwyr ydy'r systemau ac ati oherwydd CallConfirmLive! Mae'n cynnig cofnod o'n holl waith. Mae'n gwarchod y Cleientiaid, Gweithwyr Gofal a'r busnes.”

Case Study

Thistle Care

Amserlenni Syml

Mae awtomeiddio amserlenni staff yn arbed amser, yn gofalu caiff staff eu defnyddio i'w llawn potensial ac yn cynnig y Gweithiwr Gofal mwyaf addas i fodloni anghenion Cleient ar sail sawl maen prawf gwahanol. Wedi defnyddio nodwedd Amserlenni CallConfirmLive! eisoes, mae Lynne yn dweud ei fod yn "syml ofnadwy". Gyda rota pythefnos treigl yng Ngofal Thistle, mae'r datrysiad yn medru mynd i'r afael â phopeth iddyn nhw. Os oes yna unrhyw newidiadau, fel os ydy Gweithiwr Gofal yn absennol oherwydd salwch neu os ydy Cleient yn gorfod mynd i'r ysbyty, mae'r nodwedd llusgo a gollwng yn golygu fod modd gwneud newidiadau yn rhwydd. Caiff staff eu hysbysu o unrhyw newidiadau i amserlenni a rhybuddion drwy eu ffonau symudol.

Hawliadau milltiroedd awtomataidd

Mae Gofal Thistle wedi dewis defnyddio'r modiwl ychwanegol Dewin Milltiroedd (Mileage Wizard). Mae'r peiriant mapio yn cyfrifo'r holl filltiroedd dim ond wrth "glicio ychydig fotymau" yn unig. Mae Lynne yn credu ei fod yn adnodd amhrisiadwy sy'n arbed amser sylweddol yn mewnbynnu a chyfrifo hawliadau milltiroedd gan fod popeth ar sail pelltiroedd gwirioneddol gywir yn hytrach na brasamcanion.

Elwa o wybodaeth gwasanaeth amser real

Mae Lynne yn credu fod Monitro CallConfirmLive! yn adnodd o safon sy'n cefnogi ei dyhead i gynnig gofal o'r safon uchaf posib.

Mae modd i staff fewngofnodi ac allgofnodi o'u hymweliadau yn sydyn ac yn rhwydd yn defnyddio'u ffonau symudol. Yn ogystal, maen nhw'n cofnodi sylwadau Cleientiaid y mae modd eu rhannu gyda staff priodol er mwyn gofalu eu bod yn cynnig gofal ymatebol sy'n bodloni gofynion y cleientiaid.

Eglurodd Lynne: "Rydym yn gofyn i staff gofnodi manylion fel newidiadau mewn tymer ac unrhyw newidiadau i amgylchiadau - fel cwsmer yn dioddef anaf neu yn dod yn annibynnol. Mae'n bosib rhannu'r wybodaeth hyn gyda staff eraill sy'n ymweld â'r unigolyn er mwyn iddyn nhw addasu'r gofal fel sy'n briodol."

Er nad oes angen monitro gofal amser real ar y Cyngor lleol fel rhan o'u cytundeb gyda Gofal Thistle, ni fuasai Lynne yn medru gweithredu hebddo. Mae hi'n credu fod amhleidioldeb a gwrthrycholdeb CallConfirmLive! yn gwneud gwir wahaniaeth.

Dywedodd Lynne: "Os ydy Cleient yn dweud ein bod ni wedi colli ymweliadau, mae'r system cofnodi rhwydd ar CallConfirmLive! yn fodd inni ddangos pryd yn union oedd yr ymweliadau. Rydym hefyd yn cofnodi'r holl gyswllt gyda theluoedd Cleientiaid, sy'n cynnig tystiolaeth amhrisiadwy os bydd unrhyw ymholiadau. Heb yr adnodd monitro amser real, buasai'n amhosib profi hyn i gyd a buasai'n medru arwain at drallod diangen i bawb ynghlwm."

Mae Lynne hefyd yn hyrwyddo buddion gweithwyr unigol y system. Mae gwybod fod staff wedi mewngofnodi ac allgofnodi o ymweliadau yn dawelwch meddwl ac yn golygu pan fo mater brys mae'n bosib darganfod eu lleoliad olaf. Os ydy staff yn teimlo fel eu bod yn agored i niwed, er enghraifft wrth ymweld â Chleient gydag ymddygiad heriol, rydym yn eu hannog i roi'r hysbysiad 'Fy Ngwarchod' (Protect Me) arnodd ar eu ffôn. Unwaith bydd larwm wedi ei osod, bydd y staff swyddfa yn derbyn hysbysiad os ydy'r Gweithiwr Gofal ddim yn diffodd y larwm i roi gwybod eu bod yn ddiogel.

I gloi, dywedodd Lynne: "Rydw i wrth fy modd gyda pha mor drylwyr ydy'r systemau ac ati oherwydd CallConfirmLive! Mae'n cynnig cofnod o'n holl waith. Mae'n gwarchod y Cleientiaid, Gweithwyr Gofal a'r busnes."



“Rydym yn gofyn i staff gofnodi manylion fel newidiadau mewn tymer ac unrhyw newidiadau i amgylchiadau - fel cwsmer yn dioddef anaf neu yn dod yn annibynnol. Mae'n bosib rhannu'r wybodaeth hyn gyda staff eraill sy'n ymweld â'r unigolyn er mwyn iddyn nhw addasu'r gofal fel sy'n briodol.”

Lynne Rees
Thistle Care

